# BETH ALLWN NI EI WNEUD AM SBWRIEL?

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau ymgysylltiol rydych yn eu cynnig. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd effeithiol o ddatblygu sgiliau cyfannol y dysgwyr (creadigrwydd ac arloesi, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Dylech ganolbwyntio ar pam mae dysgu'n bwysig a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.

Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybrau y gellid eu dilyn wrth fynd drwy'r gweithgaredd. Nid ydynt wedi'u bwriadu i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull gweithredu yn unol ag anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

### TROSOLWG

Mae dysgwyr yn archwilio beth sy'n digwydd i'r pethau rydym yn eu taflu i ffwrdd, o ba ddefnyddiau y maent wedi'u gwneud a pha eitemau y gellir eu hailgylchu. Yna, maen nhw'n creu cyflwyniad i annog eraill i leihau'r gwastraff sydd mewn pecynnau bwyd. Mae dysgwyr yn cynnal arolwg sbwriel yn yr ardal sydd o amgylch yr ysgol, yn ystyried faint o amser y mae defnyddiau'n ei gymryd i bydru ac yn defnyddio'r wybodaeth i helpu lleihau sbwriel yn lleol.

Mae'r gweithgaredd hwn yn annog dysgwyr i archwilio'u dealltwriaeth o beth yw sbwriel, sut rydym yn cael gwared â sbwriel a ble mae'n mynd wedyn. Y nod yw i ddysgwyr ystyried y rhan y maent yn ei chwarae wrth ddefnyddio pethau a'r hyn y maent yn ei daflu ymaith, a deall y bod unrhyw gyfraniad bach y gallan nhw ei wneud i leihau'r broblem yn cael effaith llawer mwy pan eu bod yn rhan o ymgais ar y cyd.

### CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Mynediad at gopi called o fap sy'n dangos yr ardal leol o amgylch yr ysgol.
Dulliau o gymryd ffotograffau, e.e. ffonau clyfar, tabledi, camerâu, ac ati.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Gallai rhai tasgau fod yn fwy effeithiol os oes gan barau neu grwpiau o ddysgwyr fynediad at ddyfais sy'n darparu mynediad i'r rhyngrwyd.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

# BETH SY'N DIGWYDD I'N SBWRIEL?

Ar ddechrau'r dasg, mae'r dysgwyr yn cael eu hannog i ystyried beth sy'n digwydd i sbwriel pan fyddant yn ei daflu. Gwahoddwch y dysgwyr i fraslunio dilyniant llawn o'u sbwriel, o'r bin gwastraff hyd at ei fan gorffwys terfynol. Ar ôl pob cam, parhewch i ofyn ble maent yn meddwl y mae'r sbwriel yn mynd nesaf ac i egluro pam.

Mae dysgwyr yn ystyried pa ddefnyddiau y gellir eu hailgylchu a pha brosesau sy'n gysylltiedig â hynny. Gall rhai cartrefi yng Nghymru fod â hyd at 10 o finiau gwastraff gwahanol Waste recycling: Homes in Wales have the most bins in the UK - BBC News (Saesneg yn unig). Fodd bynnag, mae hyn yn golygu bod Cymru ar hyn o bryd yn ail yn y byd am ailgylchu gwastraff cartref, ac mai dim ond yr Almaen sydd yn ailgylchu mwy. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi mai gwahanu'r holl wastraff yw'r rheswm am hyn.

Os ydych am i'r dysgwyr archwilio'r data ynghylch faint o wastraff trefol a gesglir o ffynonellau cartref a digartref yn yr awdurdodau lleol, yn ogystal â lefelau ailgylchu, gellir dod o hyd i hyn ar wefan StatsCymru Rheoli gwastraff - StatsCymru.

Yn rhan olaf y dasg, gwahoddir y dysgwyr i gasglu sbwriel o focsys pecyn bwyd plant yn y dosbarth. Mae ymchwil sylfaenol Dietician explains exactly what to put in a healthy school lunchbox - Wales Online (Saesneg yn unig) yn awgrymu bod bocs bwyd pecyn dysgwr nodweddiadol yn debygol o gynnwys rhai neu bob un o'r eitemau canlynol:

- brechdan
- pecyn o greision
- afal
- iogwrt
- bisged/bar siocled.

Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr gymryd rhan mewn trafodaethau am arferion bwyta'n iach a gwastraff bwyd. Gwneir hyn drwy ddefnyddio Ymunwch â'r Ymgyrch Gwastraff Bwyd Gwych - Cymru yn Ailgylchu, yn ogystal â defnyddio data ystyrlon i greu siartiau bar, poster/taflen/podlediad, ac ati, er mwyn perswadio eraill i leihau'r gwastraff mewn bocsys bwyd. Os nad oes digon o focsys bwyd ar gael, oherwydd prydau ysgol am ddim, gallech ddefnyddio'r gweddillion o focsys bwyd yn dilyn taith ysgol neu drefnu 'diwrnod picnic'.

TASG 2

# PROBLEMAU GYDA SBWRIEL

Mae dysgwyr yn cynnal arolwg sbwriel yn yr ardal o amgylch yr ysgol ac yn ystyried pa mor hir y mae defnyddiau'n ei gymryd i bydru. Mae'r dasg yn cynnwys rhai awgrymiadau ynghylch sut y gallai dysgwyr gasglu gwybodaeth am sbwriel lleol, ond mae'n bwysig galluogi'r dysgwyr i benderfynu drostynt eu hunain sut y dylid cynnal arolwg sbwriel yn lleol.

Mae hwn yn gyfle i'r dysgwyr wneud gwaith map, gan y gellid eu hannog i ddefnyddio map stryd leol i gofnodi lleoliad biniau, mannau problemus o ran sbwriel, ac ati. Bydd pob ardal yn unigryw, ond gallai'r dysgwyr ragweld lle mae problemau sbwriel yn debygol o ddod i'r amlwg, e.e. ger siop sy'n gwerthu prydau parod neu faes parcio. Gallai dysgwyr ganfod mannau lle mae sbwriel yn debygol o fod yn broblem ac archwilio pam mae'r broblem yn bodoli ac atebion posibl i'r broblem.

Gellid cyflwyno'r term 'bioddiraddadwy' yn y dasg hon ac annog y dysgwyr i ystyried pa ddefnyddiau sy'n cymryd mwy o amser i bydru a'r canlyniadau os yw eitemau a wneir o'r defnyddiau hyn yn rhan o'r broblem sbwriel. Gwahoddir y dysgwyr i greu poster i ddangos faint o amser y mae sbwriel yn ei gymryd i bydru, gan gynnig cyfle i archwilio iaith sy'n dwyn perswâd, gan y gallech gysylltu hyn ag annog pobl i gael gwared ag eitemau o'r fath yn gyfrifol.

Yn 2026, cyhoeddodd Eco-Ysgolion Yr Adroddiad Sbwriel. Gellid defnyddio hwn fel man cychwyn wrth werthuso canfyddiadau'r dysgwyr yn y dasg hon.

Mae'r dasg hon hefyd yn cynnig cyfle i archwilio pa ddarpariaeth sydd ar gael o ran canolfannau ailgylchu a mannau i gael gwared â sbwriel yn gyfrifol yn lleol ac o fewn y sir. Yn dibynnu ar leoliad eich ysgol, efallai y bydd modd ymweld â safle neu ddefnyddio map i amlygu lle mae safleoedd o'r fath yn bodoli yn yr ardal leol. Mae gan y rhan fwyaf o safleoedd fapiau ar-lein sy'n nodi pa fathau o wastraff y gellir cael gwared ohonynt. Gallai'r rhain fod yn sail i drafodaethau ynghylch beth sy'n bosibl neu ddim yn bosibl ei ailgylchu, a'r rhesymau am hynny.

Dyma rai dolenni a allai fod yn werth eu harchwilio ar gyfer pob Tirwedd Ddynodedig:

### Tirwedd Cenedlaethol Ynys Môn

Canolfannau ailgylchu a banciau ailgylchu – Cyngor Sir Ynys Môn

Banciau ailgylchu ar Ynys Môn – Cyngor Sir Ynys Môn

### Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Powys: Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi – Cyngor Sir Powys

Sir Gaerfyrddin: Canolfannau Ailgylchu – Cyngor Sir Caerfyrddin

Sir Fynwy: Canolfannau ailgylchu gwastraff cartref – Cyngor Sir Fynwy

### Tirwedd Cenedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

Sir Ddinbych: Ymweld â'n Parciau Gwastraff ac Ailgylchu – Cyngor Sir Ddinbych

Sir y Fflint: Canolfannau Ailgylchu Cartref – Cyngor Sir y Fflint

### Parc Cenedlaethol Eryri

Conwy: Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Gwynedd: Biniau ac ailgylchu – Cyngor Gwynedd

### Tirwedd Cenedlaethol Gŵyr

Canolfannau ailgylchu – Cyngor Abertawe

### Tirwedd Cenedlaethol Llŷn

Gwynedd: Biniau ac ailgylchu – Cyngor Gwynedd

### Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Canolfannau Gwastraff ac Ailgylchu - Cyngor Sir Benfro

### Tirwedd Cenedlaethol Dyffryn Gwy

Sir Fynwy: Canolfannau ailgylchu gwastraff cartref – Cyngor Sir Fynwy

TASG 3

## SUT GALLWN NI LEIHAU SBWRIEL YN YR ARDAL LEOL?

Yn y dasg hon, gwahoddir y dysgwyr i weithio ar y cyd i geisio lleihau sbwriel yn yr ardal o amgylch yr ysgol. Gan ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd o arolygon sbwriel, maent yn datblygu ac yn dilyn cynllun i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Darperir rhai syniadau cychwynnol i ddysgwyr ac fe'u hanogir i ychwanegu eu syniadau eu hunain. Mae'r dasg yn awgrymu bod pob grŵp yn taflu syniadau ac yn dewis eu tri syniad gorau, cyn eu cyflwyno i'r dosbarth. Yna, mae pob dysgwr yn pleidleisio dros yr hyn y maent yn ei ystyried fel y syniadau gorau, ar sail y cyflwyniadau. Gallech ddefnyddio pleidlais ddotiau, lle mae pob dysgwr yn rhoi 3, 2 neu 1 pwynt i'w tri dewis gorau, ac ati.

Dyma rai posibiliadau ar-lein ar gyfer pleidleisio dosbarth cyfan:

Poll Everywhere (Saesneg yn unig) – System adnabyddus ar gyfer cael ymateb dosbarth, lle mae dysgwyr yn nodi eu pleidleisiau ar ffonau neu liniaduron; gellir ei integreiddio â PowerPoint.

Vevox (Saesneg yn unig) – Pleidleisio ar y pryd, holi ac ateb a chwisiau sy'n gweithio ar ddyfeisiau symudol ac yn integreiddio ag adnoddau fel Teams neu PowerPoint.

Mentimeter (Saesneg yn unig) – Pleidleisio rhyngweithiol lle ceir canlyniadau gweledol (amlddewis, cwmwl geiriau, graddfeydd, ac ati); yn ddefnyddiol ar gyfer rhoi adborth a thaflu syniadau.

QR Poll (Saesneg yn unig) – Pleidleisio syml drwy godau QR, heb fod angen apiau na chyfrifon – mae dysgwyr yn sganio ac yn pleidleisio.

SlideLizard (Saesneg yn unig) – Yn ychwanegu pleidleisiau ar y pryd yn uniongyrchol i gyflwyniadau PowerPoint.

CloudVOTE (Saesneg yn unig) – System ymateb gan ddysgwyr ar gyfer uwchlwytho gwersi a chasglu atebion ar y pryd.

Dewiswch nifer y syniadau sy'n cyd-fynd â nifer y grwpiau – e.e. 6 grŵp yn defnyddio'r 6 syniad gorau, ac ati.

Dim ond awgrym yw'r dull hwn, ac efallai bod gennych eisoes weithdrefnau dosbarth ar gyfer dewis y syniadau gorau a dyrannu syniadau i grwpiau, ac ati. Yr hyn sy'n bwysig yw dod o hyd i ffordd o gasglu atebion dysgwyr i leihau'r broblem sbwriel yn yr ardal leol, a ffordd o benderfynu ar y syniadau gorau y gellir eu rhoi ar waith.

Gwahoddwch y dysgwyr i weithredu eu cynlluniau, gan fyfyrio'n barhaus ar eu cynllun yn barhaus a'i addasu os oes angen. Anogwch nhw i ystyried sut y byddant yn gwybod a yw eu syniadau i leihau sbwriel wedi cael effaith.

## Dolenni i fentrau lleol

Er mwyn cynnig safbwyntiau gwahanol a datblygu syniadau dysgwyr, gallech hefyd ystyried y dolenni hyn ar gyfer pob Tirwedd Ddynodedig:

**Tirwedd Cenedlaethol Ynys Môn**

BwydDaMon – menter lleihau gwastraff bwyd

Cylchol – Prosiect Economi Gylchol Menter Môn

Tirlenwi Gwyllt – datrysiadau sy'n defnyddio tirlenwi gwyllt

**Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**

Disgyblion ysgol yn Aberhonddu yn arwain ymgyrch i fynd i'r afael â llygredd afonydd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Bannau Brycheiniog mountain rescue team halts training over litter – BBC News (Saesneg yn unig)

**Tirwedd Cenedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy**

Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy – Tirwedd Cenedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

**Parc Cenedlaethol Eryri**

Yr Wyddfa Ddi-Blastig – Parc Cenedlaethol Eryri

COPA1 Youth Climate Summit: Schoolchildren Address Litter Crisis – Snowdonia Central (Saesneg yn unig)

Gwirfoddoli – Parc Cenedlaethol Eryri

Dwylo Diwyd – Cymdeithas Eryri

**Tirwedd Cenedlaethol Gŵyr**

Environment Centre Swansea (Saesneg yn unig)

Cartref – Cadwch Gymru'n Daclus

Adroddiad Effaith Cadwch Gymru'n Daclus – 2024 – Cadwch Gymru'n Daclus

Environmental – YMCA Swansea (Saesneg yn unig)

**Tirwedd Cenedlaethol Llŷn**

Er nad oes un wefan swyddogol ar gyfer 'ymgyrch sbwriel Llŷn', mae negeseuon gofal arfordirol ac egwyddorion *Gadael dim byd ar ôl* yn cael eu hyrwyddo'n eang gan gyrff twristiaeth lleol, cynghorau cymuned ac addysgwyr awyr agored.

**Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

Pembrokeshire school wins international awards – PembrokeshireCC News (Saesneg yn unig)

Pennar Community School wins national environmental award – The Pembrokeshire Herald (Saesneg yn unig)

Twtio'r traeth/lleihau plastig – Ardal Cadwraeth Arbennig Sir Benfro Forol

Ryfelwyr Bwyd Ydyn Ni: Ymladd Gwastraff Bwyd yn Ysgolion Sir Benfro – Awel Aman Tawe

**Tirwedd Cenedlaethol Dyffryn Gwy**

Citizen Science in the Wye - Engage Environment Agency (Saesneg yn unig)

## Dolenni i fentrau cenedlaethol yng Nghymru

Er mwyn ystyried yn ehangach sut y gall dysgwyr gael effaith ar sbwriel ledled Cymru, mae mentrau y gall yr ysgol fod yn rhan ohonynt, er enghraifft y rhai canlynol:

Mae Eco-Ysgolion yn rhaglen fyd-eang a ddatblygwyd gan y Sefydliad Addysg Amgylcheddol (FEE) ym 1994 ac yn cael ei gynnal yng Nghymru gan Cadwch Gymru'n Daclus. Mae'n grymuso ac yn ysbrydoli dysgwyr i wneud newidiadau amgylcheddol cadarnhaol i'w hysgol a'r gymuned ehangach, gan gyfrannu at broses lle gallai'r ysgol wneud cais am Wobr Eco-Ysgolion – achrediad a gydnabyddir yn rhyngwladol: Eco-Sgolion - Cadwch Gymru'n Daclus – Eco-Sgolion

Mae gan Cadwch Gymru'n Daclus wybodaeth ac amrywiaeth o fentrau a allai fod yn ddefnyddiol i'w defnyddio fel rhan o'r gweithgaredd hwn: Cartref – Cadwch Gymru'n Daclus

Mae Caru Cymru yn cefnogi prosiectau gweithredu cymunedol megis 'Litter Champions' a chanolfannau casglu sbwriel: Gweithredu Cymunedol – Cadwch Gymru'n Daclus – Caru Cymru

Mae Her Hinsawdd Cymru yn gystadleuaeth i ysgolion yng Nghymru, sy'n gwahodd dysgwyr 5–18 oed i arddangos eu creadigrwydd, eu hangerdd a'u syniadau ar gyfer gwella'r blaned: Her Hinsawdd Cymru - Cadwch Gymru'n Daclus - Eco-Sgolion

## Gweithgareddau defnyddiol eraill ar Tirlun

Mae gweithgareddau eraill ar Tirlun sy'n ystyried sbwriel a'i reolaeth, gan gynnwys:

- Beth i'w wneud â sbwriel yn Nhirwedd Cenedlaethol Ynys Môn?
- Beth i'w wneud â sbwriel yn Nhirwedd Cenedlaethol Llŷn?
- Beth i'w wneud â sbwriel ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro?

Gellir addasu'r rhain i gyd ar gyfer unrhyw leoliad.

Yn ogystal, mae gweithgareddau ar Tirlun sy'n ystyried llygredd, gan gynnwys:

- Beth yw llygredd?
- Pa mor ddiogel yw nofio yn y môr yn Nhirwedd Cenedlaethol Ynys Môn?
- Pa mor ddiogel yw nofio yn y môr ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro?
- Pa mor ddiogel yw nofio gwyllt ym Mannau Brycheiniog?
- Pa mor ddiogel yw nofio gwyllt yn Eryri?
- Pa mor ddiogel yw nofio gwyllt yn Nyffryn Gwy?
- Syrffio ar Benrhyn Gŵyr
- Syrffio ym Mhenrhyn Llŷn
- Beth allwn ni ei weld yn y tywyllwch ym Mryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?
- Beth allwn ni ei weld yn y tywyllwch ar Ynys Môn?

Gellir addasu'r rhain i gyd ar gyfer unrhyw leoliad.